Gweithdy Recriwtio Gofal Cymdeithasol

Ydych chi'n ystyried gyrfa ym maes gofal cymdeithasol neu'n chwilio am gyfle newydd?

Dewiswch yrfa gyda Chyngor Sir Ddinbych.

Dewch draw i'n Gweithdy Recriwtio Gofal Cymdeithasol i gael rhagor o wybodaeth am weithio ym maes Gofal Cymdeithasol gyda Chyngor Sir Ddinbych.

Dyddiad: Dydd Iau 13 Chwefror
Amser: 10:00 y.b.
Lleoliad: Neuadd y Sir, Ffordd Wynnstay, Rhuthun, LL15 1YN

Nid swydd yn unig yw gweithio ym maes gofal cymdeithasol, dyma un o'r dewisiadau gyrfaol mwyaf gwerthfawr y gallwch chi ei wneud. Rydym ni'n chwilio am unigolion gydag agwedd naturiol i ofalu, ac sydd eisiau gwneud gwahaniaeth i fywydau eraill. Mae'n rhaid i chi fod yn drefnus, yn gallu cyfathrebu yn wych, ac yn mwynhau gweithio fel rhan o dîm agos.

Bydd y gweithdy yn cynnwys gwybodaeth am y timau gofal cymdeithasol, y swyddi gweigion sydd ar gael a'r broses ymgeisio. Os hoffech chi lenwi ffurflen gais ar y diwrnod, yna mi fydd yna gymorth a chefnogaeth ar gael i chi wneud hynny. Byddwch chi'n cael cynnig cyfweliad ar y diwrnod.

Fel gweithiwr i'r Cyngor, bydd gennych chi hawl i ystod o fuddion fel gwyliau blynyddol hael, cynllun pensiwn cystadleuol, arbedion ffordd o fyw drwy'r cynllun gwobrwyo sy'n cynnwys siopa, adloniant, gwyliau a diwrnodau allan yn ogystal â mynediad at ein Rhaglen Cymorth i Weithwyr.

Os ydych chi'n awyddus i helpu eraill ac yr hoffech chi gael gyrfa llawn boddhad gyda Chyngor Sir Ddinbych, cadwch eich lle ar gyfer y Gweithdy heddiw.

I fynychu'r gweithdy:

Anfonwch e-bost i: swyddigofalcymdeithasol@sirddinbych.gov.uk gan nodi'ch enw, eich rhif ffôn a'ch cyfeiriad e-bost.
neu
Ffoniwch: 01824 712187